

---

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

---

**2017 No. 909**

**Rheoliadau Addysg a Gwella Iechyd Cymru 2017**

**Penodi aelodau**

3.—(1) Penodir aelodau AaGIC fel a ganlyn—

- (a) penodir y cadeirydd gan Weinidogion Cymru;
- (b) penodir hyd at chwe aelod arall yn ogystal â'r cadeirydd gan Weinidogion Cymru;
- (c) penodir y prif weithredwr yn unol â pharagraff (4);
- (d) penodir hyd at bedwar aelod arall gan yr aelodau a benodir o dan is-baragraffau (a) a (b).

(2) Ni chaniateir i'r aelodau a benodir o dan baragraff (1)(a) a (b) fod yn gyflogeion AaGIC, a chyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel “aelodau nad ydynt yn swyddogion”.

(3) Cyflogeion AaGIC fydd yr aelodau a benodir o dan baragraff (1)(c) a (d), a chyfeirir atynt yn y Rheoliadau hyn fel “swyddog-aelodau”.

(4) Penodir y prif weithredwr gan yr aelodau nad ydynt yn swyddogion ar wahân i'r prif weithredwr cyntaf a benodir gan Weinidogion Cymru.